

EBE Ioan Madog am John Evans, milfeddyg a gofaint o Bentrefelin, Arfon, a gladdwyd yn 1866, yr un flwyddyn yn union ag y bu farw Catherine ei wraig.

Yn ben Milfeddyg bu'n mawl ei foddion,

Yn rhoi o'i brifwaith gelyfyddgar brofion, -

A'i lês i'w wlad drwy ei fâd ymdraffodion

Cododd ei enw i serch ei gyd-ddynion...

Mae'r garreg fedd a gwaith Ioan Madog i'w weld ar fin y prif-lwybr sy'n arwain at borth Eglwys Ynyscynhaiarn lle gorwedd gweddillion Y Bachgen Du, sef John Ystumllyn, a Dafydd y Garreg Wen.

Ond i ddychwelyd at John Evans (1791-1866). Disgynydd iddo yw John R.D. Evans sy'n byw yn 14 Stryd Fawr, Tremadog, ac wedi bwrw'i brentisiaeth yn of ym Mhen Cob ger Minffordd yn Meirion cyn gweithio fel weldar a ffitar. Gofaint oedd ei dad yntau sef Griffith Evans a hanai o Feddgelert ac a laddwyd yng ngwaith pylor Penrhyndeudraeth yn 1940. Ei wraig ef oedd Catherine (Rowlands cyn priodi), a chyfarfu â hi pan ddaeth i weithio yn hen efail y gof yn Adwy-ddu, Penrhyndeudraeth.

Un o Benmynydd, Môn oedd Catherine, gwraig y John Evans cyntaf. Brodyr John oedd Hugh a fu farw yn 1832 ac yntau'n 'Dockgatesman' yn ninas Lerpwl (fe'i claddwyd yn Eglwys St. Ioan yno); Robert a fu farw yn 1850; Jane (m.1969), David (m.1878). Eu tad oedd Evan Ellis (1758-1837). Bu'n cadw trefn ar un amser ar Frongadair Bach cyn symud i Glanrafon, Pentrefelin. Gof a milfeddyg ydoedd. Disgrifir yn y *Gestiana* fel gof cywraint a milfeddyg gwerthfawr o'r hen stamp. Ceir englynion i'w goffáu yntau a'i wraig Jennet (Hughes cyn priodi).

Milfeddyg mawl fu iddo - a'i gyrchu

Fu gorchwyl aml Gymro; Dan y gwys mae'n gorphwyso A gair i ddweud lle gorwedd o

Moelwyn Fardd

Ym mynwent Ynyscynhaiarn y gorwedd Evan Elis a'i briod.

Yn ôl *Cofrestr Claddedigaeth Ynyscynhaiarn* bu i John a Catherine Evans dwr o blant: Janet (m. yn 18 mlwydd oed yn 1834); Margaret a fu farw yn 1835; Anne (ganed 1821), Evan; John (ganed 1830) a hwn oedd y Ffariar Mawr ac yn ôl *Cyfrifiad 1861: Ynyscynhaiarn* bu'n fyfyrwr yn y Coleg Milfeddygol yng Nghaeredin, yr Alban; Catherine (aned 1826) o'r hon o'i hail briodas tra'n byw ym Meddgelert y ganed Mary sef mam Griffith Evans, Penrhyndeudraeth a nain

DAFYDD GUTO IFAN yn cofio am

Y GOF A'R MILFEDDYG A'R HYNAFIAETHWR

J.R.D. Evans, Tremadog.

Brawd Catherine a John uchod oedd Roberts Evans yr Hynafiaethydd. Parhaodd John ei frawd i weithio a byw yng Nglanrafon, Pentrefelin ar hyd ei oes. Tystir yng *Nghyfrifiad 1881* mai hen lanc fel ei frawd Robert ydoedd a'i fod yn preswyllo yng Nglanrafon. 46 mlwydd oed ydoedd ar y pryd.

Ond beth am Robert Ifans? Ganed ym Mhentrefelin ar yr ugeinfed Gorffennaf 1827. Yn Llanfaelog, Môn y bu farw. Yn nhŷ ei gefndir Robert Williams, sef Plas Maelog yr oedd ar y pryd. Y dyddiad Chwefror 9ed, 1900. A'r hyn a'i lladdodd oedd bronchitis. Yr oedd yn 73 oed ar y pryd, a'r Ciwrad J.C. Jones a'i claddodd ym mynwent yr eglwys.

* * *

DERBYNIODD Robart ei addysg yn yr Institiwt yn Lerpwl. Fe'i haddysgwyd yn beiriannydd. Erbyn 1861 roedd wedi hen hel ei draed oddi cartref. Fel hyn y dywaid Alltud Eifion amdano yn y *Llan Chwefror 23ain 1900*.

Aeth i Awstralia yn amser panic yr aur.

Mae lle cryf i greu mai i Fictoria yr aeth o, oherwydd mae Carneddog mewn erthygl sy'n ymdrin â Clwydfro (Thomas Williams) yn *Cymru Tachwedd 15ed, 1896* yn sôn fel a ganlyn:

Mynych y byddaf yn cael fy niddori gydag atgofion diderfyn gan yr henafgwr ymchwilgar a diwyd Robert Ifans, Smithfield House, Beddgelert. Yr oedd yntau yn berffaith gydnabyddus â Chlwydfro tra yn Awstralia.

A chyfeirir at y blynyddoedd 1853-55 pan oedd y bardd adnabyddus yn byw yn Fictoria, Awstralia. Ond dwad adref i Feddgelert at Catherine ei chwaer fu hanes Robart Ifans wedi ennill digon i fyw yn gynnil arno am weddill ei oes, chwedl Alltud Eifion.

Hefo'i chwaer Catherine a oedd erbyn 1881 yn wraig weddw yr ymgartrefodd Robart yn Smithfield House, Beddgelert ac oddi yno y cychwynai pob taith. Nid oedd pall ar ei chwilota. Fel Myrddin Fardd ymwelai â mynwentydd a hen blasdai. Carai chwilota. Hanes lleol oedd ei faes pennaf. Cofnodai. Casglai ffosiliau. Etifeddodd yr enw Robart Ifans yr Hynafiaethydd.

* * *

YN YR *Arweinydd* (Leader Porthmadog) mae Bob Owen yn ei Nodion o'r Gest yn cynnwys cerdd ddiolch o eiddo Alltud Eifion i'w gyfaill Beuno am

rodri pig ac angor pres ar flaen ffon gorsen 'Alltud', yr hon a gerfiwyd gan Robart Ifans, yr Hynafiaethydd. Yn Rhagfyr 1887 y digwyddodd hynny.

Eryn 1898 roedd Robart ym Môn. Ond dywaid Alltud Eifion ei fod wedi treulio dros ugain mlynedd ymhlith cyfeillion calon yn sefyll yn gadarn dros yr Eglwys ym Meddgelert ac yn bwrw'i amser yn ysgrifennu a chwilota a chasglu hynafiaeth am bobl a phethau.

Yr oedd yn parhau i chwilio ac ysgrifennu hyd ei ddyddiau olaf. Yn nechrau Haf 1900 bwriadai symud i'w hen ardal yn Ynyscynhaiarn, ond nid felly y Ei fwriad oedd dychwelyd i Bentrefelin, a sefydlu yno amgueddfa. Ond ni wireddwyd ei freuddwyd mwy nag y bydd cofio am y gŵr 'cywir, diymhongar', un a oedd o flaen ei oes, sef Robart Ifans, eleni yn Steddfod Genedlathol Bro Madog. Ni pherchir byth y proffwyd yn ei wlad ei hunan, medd un hen air. Mae Robart Ifans, yr Hynafiaethydd yn haeddu'i gofio petae dim ond am y cymorth a roddodd i eraill. Nid *Y Gestiana* heb Robart Ifans, mwy na *Celtic Folklore* heb Syr John Rhys.

Ym mis Hydref 1882 y mae Robart Ifans yn ysgrifennu o Feddgelert at Syr John Rhys:

Wele fi yn anfon swp o bapurau heb gael fy modloni ar hanes y tylwyth teg. Modd bynnag holaf eto....byddaf yn sicr o'i anfon ichwi.....Anfonaf hefyd wynebuddalen o unrhyw lyfr prin....

Does ryfedd i Carneddog fynd ati i gynnwys peth o waith chwilota Robart Ifans yn y *Cymru* Ebrill 1900. Talu tyeirnged mewn un ffordd i'r hen frawd Robart Ifans a wnaeth.

Diddorol nodi i'r llawysgrifen sydd yn nau lythyr Robart Ifans gael sylw Thomas Roberts, Aran Llawysgigau Coleg y Brifysgol, Bangor oherwydd yn ei Adran ef y mae dwy ddogfen sef Bangor 705 a 2382 (6-9).

Dywaid y diweddar Bob Owen mai Robart Ifans yr Hynafiaethydd fu wrth y gwaith o gofnodi'r oll sydd mewn un ddogfen. Mae llythyrau gwreiddiol Robart Ifans at Syr John Rhys yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Profodd Thomas Roberts mai cynnwys yr un llaw yw llawysgrif 705 a'r llythyrau. Roedd Bob Owen yn llygad ei le. Mi fyddai Robart Ifans yn hynod ddiolchgar fod rhywrai yn rhywle wedi cymryd gofal o'i ddogfennau hyd yn oed os na ddaeth dim byd o'i freuddwyd i

sefydlu amgueddfa ym Mhentrefelin sydd yn un o'r pentrefi agosaf i Faes y Brifwyl eleni.

DIOLCHIADAU: I'm chwaer Gwenfair am fy ysgrif i chwilota i hanes teulu'r Ifansiaid; does gennyf fel y cyfryw ddim rhyw lawer i ddweud wrth hel achau, ond fe'm siomwyd o'r ochr orau; Eilir Wyn Thomas a staff Archifdy Môn; i Gareth Heulfryn Williams, a'r staff yn Archifdy Arfon; i Glyn Parry am ei drafferth yn Adran Llawysgigau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru; i Thomas Roberts yn arbennig, am ei gymwynas o dynnu sylw a chynorthwyo wrth ei waith yn Adran y Llawysgigau, Coleg y Brifysgol Gogledd Cymru ac i John Ellis Jones, Curador, Amgueddfa Hynafiaethau Cymreig Coleg Prifysgol Bangor am ei ymdrech ddynig i geisio olrhain y ffosiliau a gasglwyd gan Robart Ifans yr Hynafiaethydd.

Ymyl y ddalen

YN YSTOD ei fywyd fe welodd William Williams Pantycelyn (1717-91) argraffu a chyhoeddi o leiaf 92 o'i weithiau yn cynnwys marwnadau a chasgliadau o emynau. Llwyddais i gasglu 54 o'r gweithiau hyn. Gan mai llyfrynnau bychan yw llawer ohonynt nid rhyfedd eu bod yn brin. Goroesodd ambell un ohonynt oherwydd ei bwytho ynghyd â llyfrynnau eraill a'u diogel oddi mewn i gloriau caled. Gobaith gwan iawn oedd i un o farwnadau wyth tudalen Williams oroesi y tu allan i glydwch cyfrol 'Amryw'.

Ymddengys na chwydrodd dau o weithiau'r emynydd allan o Fôn yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf, sef **Marwnad** . . . **Christopher Basset** (Aberhonddu 1784) a **Rhai Hymnau Newyddion** . . . (Trefecca 1787). Cyn-berchnogion y gweithiau hyn oedd Rice Jones, Tŷ Croes, Llechylched a 'John Thomas Shopkeeper Llannerchymedd 1799', prawf fod rhai o bobl Môn yn darllen cyfansoddiadau y gŵr rhyfeddol o Sir Gaerfyrddin.

'Edmd, Thos. George' oedd perchenn cyntaf **Berr Hanes** . . . **James Albert** (Aberhonddu 1779) a bu'r ddau lyfr yn **Aleluia** . . . (Aberhonddu 1775) a **Hanes Troedigaeth** . . . **Thomas Goodwin** (Aberhonddu 1779) yn eiddo'r Parchedig J T Job cyn treulio rhai blynyddoedd ar sillfoedd fy nghyfaill y Parchedig Gomer M Roberts. Byddant yn lletya gyda mi, gobeithio, yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Yn ystod Awst 1938 fe brynodd y Parchedig Gomer M Roberts **Aleluia** . . . (Bristo 1747) 'Y **Chweched Rhan**' o lyfrgell **Henry W Evans, Solfa**. Mae'r copi anghyflawn yn awr yn eiddo i mi. I gwblhau fy nghasgliad o weithiau Williams y mae arnaf angen 38 yn rhagor o lyfrynnau. Siawns mul yn y *Grand National!*

D.W.W.